

Brîff Gwybodaeth

Dyddiad: 24 Chwefror 2014

Ardal berthnasol: Cymru

Thema: Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Dyma wybodaeth ar y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) sy'n cynorthwyo'r adroddiad monitro blynyddol a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a'r Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2014.

Crynodeb

Ceisiadau am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Tabl 1: Nifer y ceisiadau yn ôl y math o atgyfeiriad

	Cais am awdurdodiad safonol	Cais am awdurdodiad safonol, pan fo awdurdodiad brys eisoes wedi ei sefydlu	Ceisiadau gan drydydd parti ^(b)	Cyfanswm y ceisiadau
<i>Nifer</i>				
2009 -10	214	333	.	547
2010 -11 ^(a)	237	249	.	488
2011 -12	284	261	.	545
2012 -13	245	277	4	526
<i>Canran</i>				
2009 -10	39.0	61.0	.	100.0
2010 -11 ^(a)	49.0	51.0	.	100.0
2011 -12	52.0	48.0	.	100.0
2012 -13	46.6	52.7	0.8	100.0

(a) Nid oedd y corff goruchwylio yn gallu darparu gw wybodaeth ynglŷn â'r math o gais mewn 2 achos

(b) Nid yw data ar geisiadau gan drydydd parti ar gael cyn 2012-2013 yn y fformat hwn o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd yr arferai AGGCC

- Yn 2012-13, roedd yna 526 cais am awdurdodiad DoLS gan awdurdodau rheoli – mae'r 526 cais yn ymwneud â 417 o bobl.

Cysylltu: Nigel Moss (AGGCC) Ffôn: 0300 062 8566
Evan Humphries (AGIC) 0300 062 8267

E-bost: cssiw_information@wales.gsi.gov.uk
evan.humphries@wales.gsi.gov.uk

Diweddariad Nesaf: Ionawr 2015 (dros dro)

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful, CF48 1UZ
www.aggcc.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Heol y Fan, Caerffili CF83 3ED
www.hiw.org.uk



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

- Roedd ceisiadau am awdurdodiadau o ganlyniad i geisiadau trydydd parti yn llai nag un y cant o gyfanswm y ceisiadau. Ceisiadau am awdurdodiad safonol lle mae awdurdodiad brys eisoes ar waith oedd 277 (53 y cant) o gyfanswm y ceisiadau. Nid oedd unrhyw awdurdodiad brys eisoes ar waith ar gyfer y 245 (47 y cant) a oedd yn weddill.

Tabl 2: Nifer y ceisiadau yn ôl y math o atgyfeiriad o ran awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd

	Awdurdodau Lleol			Byrddau Iechyd		
	Cais am awdurdodiad safonol, pan fo Cais am awdurdodiad brys eisoes wedi ei sefydlu d safonol	Cais am awdurdodiad safonol, pan fo Cais am awdurdodiad brys eisoes wedi ei sefydlu	Ceisiadau gan drydydd parti (b)	Cais am awdurdodiad safonol	Cais am awdurdodiad brys eisoes wedi ei sefydlu	Ceisiadau gan drydydd parti (b)
<i>Nifer</i>						
2009 -10	163	249	.	51	84	.
2010 -11 (a)	183	161	.	54	88	.
2011 -12	232	151	.	52	110	.
2012 -13	212	132	3	33	145	1
<i>Canran</i>						
2009 -10	40.0	60.0	.	38.0	62.0	.
2010 -11 (a)	53.0	47.0	.	38.0	62.0	.
2011 -12	61.0	39.0	.	32.0	68.0	.
2012 -13	61.1	38.0	0.9	18.4	81.0	0.6

(a) Nid oedd y corff goruchwylio yn gallu darparu gwybodaeth ynglŷn â'r math o gais mewn 2 achos

(b) Nid yw data ar geisiadau gan drydydd parti ar gael cyn 2012-2013 yn y fformat hwn o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd yr arferai AGGCC

- O'r 526 o geisiadau, daeth 347 (66 y cant) oddi wrth ofal cymdeithasol lle mae'r awdurdod lleol yn gorff goruchwylio. Daeth 179 (34 y cant) oddi wrth iechyd.
- Mae nifer y ceisiadau i awdurdodau lleol yn 2012-13 wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ym maes iechyd, er bod ceisiadau am awdurdodiadau safonol wedi gostwng, mae ceisiadau am awdurdodiadau safonol yn dilyn awdurdodiadau brys wedi cynyddu.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau am awdurdodiad a ganiatawyd ac ni chaniatawyd

	Awdurdodau Lleol			Byrddau Iechyd			Yr holl geisiadau		
	Ni Caniatawyd	Ni chaniatawyd	Cyfanswm y ceisiadau i Awdurdodau Lleol	Ni Caniatawyd	Ni chaniatawyd	Cyfanswm y ceisiadau i Fyrddau Iechyd	Ni Caniatawyd	Ni chaniatawyd	Cyfanswm y ceisiadau
<i>Nifer</i>									
2009 -10 (a)	177	229	406	77	58	135	254	287	541
2010 -11 (b)	203	141	346	74	64	138	277	205	488
2011 -12 (c)	216	159	383	82	78	162	298	237	545
2012 -13 (ch)	182	152	347	72	105	179	254	257	526
<i>Canran</i>									
2009 -10 (a)	44.0	56.0	100.0	57.0	43.0	100.0	47.0	53.0	100.0
2010 -11 (b)	58.7	40.8	99.4	52.1	45.1	97.2	56.8	42.0	98.8
2011 -12 (c)	56.4	41.5	97.9	50.6	48.1	98.8	54.7	43.5	98.2
2012 -13 (ch)	52.4	43.8	96.3	40.2	58.7	98.9	48.3	48.9	97.1

(a) gan fod data ar goll, nid yw'r cyfansymiau yn adlewyrchu cyfanswm nifer y ceisiadau

(b) mae 6 achos (3.4%) y cofnodwyd eu bod yn mynd rhagddynt heb eu cynnwys yn y tabl hwn

(c) Mae 10 achos (3.3%) wedi eu cofnodi fel rhai ar y gw eill sydd heb eu cynnwys yn y tabl hwn

(ch) Mae 15 achos (3%) wedi eu cofnodi fel rhai ar y gw eill sydd heb eu cynnwys yn y tabl hwn

- Caniatawyd 254 (48 y cant) o geisiadau am awdurdodiad DoLS.
- Gwrthodwyd 257 (49 y cant) o geisiadau am awdurdodiad DoLS.
- O'r rheiny a wrthodwyd, roedd 152 (60 y cant) mewn gofal cymdeithasol ac roedd 105 (40 y cant) mewn iechyd.
- Mewn gofal cymdeithasol, roedd 88 y cant o awdurdodiadau yn ddilys am hyd at 6 mis, tra mewn iechyd, roedd 99 y cant o awdurdodiadau yn ddilys am hyd at 3 mis.
- Roedd 58 y cant o'r awdurdodiadau, a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn, wedi rhedeg am y cyfnod llawn a awdurdodwyd gan y corff goruchwyllo.

Tabl 4: Yr amser rhwng y cais a'r penderfyniad (Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd)

	Awdurdodiad safonol					Awdurdodiad safonol yn dilyn awdurdodiad				
	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Dros 28 diwrnod	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Dros 28 diwrnod
<i>Nifer</i>										
2009 -10 (a); (b)	..	75	35	45	10	..	225	50	20	*
2010 -11 (b)	15	90	45	60	20	15	175	35	5	*
2011 -12 (c)	12	80	71	100	17	2	189	51	10	3
2012 -13 (ch)	10	68	59	79	17	19	194	40	17	2
<i>Canran</i>										
2009 -10	..	45.5	21.2	27.3	6.1	..	76.3	16.9	6.8	*
2010 -11	6.4	38.6	19.3	25.8	8.6	6.4	74.5	14.9	2.1	*
2011 -12 (c)	4.2	28.2	25.0	35.2	6.0	0.8	72.4	19.5	3.8	1.1
2012 -13	4.3	29.2	25.3	33.9	7.3	7.0	71.3	14.7	6.3	0.7

(a) Gan fod data ar goll, nid yw'r cyfansymiau yn adlewyrchu cyfanswm nifer yr awdurdodiadau

(b) Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu

(c) Mae'n gadael allan 10 achos a gofnodwyd fel rhai ar y gw eill.

(ch) Gan eithrio 15 o achosion a gofnodwyd fel achosion ar y gw eill a 2 achos lle tynnwyd y cais yn ôl cyn gw neud y penderfyniad

- Gwnaed y rhan fwyaf o'r penderfyniadau (58 y cant) o fewn saith niwrnod, p'un a ddaeth y cais oddi wrth leoliad gofal cymdeithasol neu leoliad iechyd.
- Pan wneir cais am awdurdodiad safonol lle mae awdurdodiad brys eisoes yn ei le, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod hyn yn cael ei gwblhau o fewn saith niwrnod neu, mewn amgylchiadau rhagnodedig lle y caniateir estyniad, pedwar diwrnod ar ddeg. Cyflawnwyd hyn yn y rhan fwyaf o achosion.
- Caniatwyd yr holl geisiadau am estyniad amser er mwyn asesu ar gyfer awdurdodiadau safonol yn dilyn rhai brys.

Nodweddion yr unigolion dan sylw

- Roedd 56 y cant o geisiadau yn ymwneud â merched.
- Roedd 98 y cant o geisiadau yn ymwneud â phobl wyn
- Roedd 84 y cant o geisiadau yn ymwneud â phobl oedd dros 65 mlwydd oed.
- Daeth llai nag 1 y cant o geisiadau gan drydydd parti.
- Yn 81 y cant o geisiadau, lle roedd gan yr unigolyn gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol (gweler y Termau Allweddol), roedd y cynrychiolydd yn ofalwr, perthynas neu gyfaill.
- Roedd cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol yn derbyn tâl mewn 26 y cant o'r achosion.
- Roedd mwyafrif y cynrychiolwyr cyflogedig yn weithwyr proffesiynol yn hytrach nag yn aelod o'r teulu.

Lleoliad yr unigolyn perthnasol

- Yn 469 o geisiadau (89 y cant), roedd yr unigolyn perthnasol wedi ei leoli yn yr un ardal â chorff goruchwyllo'r Awdurdod Lleol neu'r Bwrdd Iechyd oedd yn ymdrin â'r achos.
- Roedd 31 (6 y cant) o'r unigolion perthnasol mewn cartrefi gofal yng Nghymru, y tu allan i'r Awdurdod Lleol lle roeddent yn byw'n arferol. Roedd 16 (3 y cant) mewn cartrefi gofal yn Lloegr.
- Roedd 10 (2 y cant) o'r unigolion perthnasol mewn lleoliadau ysbyty yn Lloegr, oedd wedi cael eu comisiynu gan y Bwrdd Iechyd oedd yn adrodd.

Cyfradd yr awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid fesul 100,000 o'r

boblogaeth

Tabl 5: Cyfran yr awdurdodiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth

Awdurdod Lleol	Poblogaeth 18+ (miloedd) (a)	Nifer yr awdurdodiadau	Cyfran fesul 100,000 o'r boblogaeth
Ynys Mon	56	1	1.8
Gwynedd	98	2	2.0
Conwy	94	0	0.0
Sir Ddinbych	75	5	6.7
Sir y Flint	120	6	5.0
Wrecsam	107	3	2.8
Powys	107	16	14.9
Ceredigion	63	0	0.0
Sir Benfro	98	6	6.1
Sir Gaefyrddin	147	34	23.2
Abertawe	193	8	4.1
Pen-y-bont ar Ogwr	112	4	3.6
Castell-nedd Port Talbot	111	2	1.8
Bro Morgannwg	100	5	5.0
Caerdydd	186	10	5.4
Rhondda Cynon Taf	46	25	53.8
Merthyr Tudful	140	8	5.7
Caerffili	56	13	23.4
Blaenau Gwent	72	2	2.8
Torfaen	73	20	27.3
Sir Fynwy	113	10	8.9
Casnewydd	277	2	0.7
Pob Awdurdod Lleol 2009-10	2,370	175	7.4
Pob Awdurdod Lleol 2010-11	2,382	203	8.5
Pob Awdurdod Lleol 2011-12	2,382	216	9.1
Pob Awdurdod Lleol 2012-13	2,443	182	7.4
Bwrdd Iechyd			
Betsi Cadwaladr	550	5	0.9
Addysgu Powys	107	2	1.9
Hywel Dda	308	7	2.3
Abertawe Bro Morgannwg	416	13	3.1
Caerdydd a'r Fro	285	16	5.6
Cwm Taf	186	15	8.1
Aneurin Bevan	590	14	2.4
Pob Bwrdd Iechyd 2009-10	2,370	75	3.2
Pob Bwrdd Iechyd 2010-11	2,382	74	3.1
Pob Bwrdd Iechyd 2011-12	2,382	82	3.4
Pob Bwrdd Iechyd 2012-13	2,443	72	2.9

(a) Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru

- Mae cyfradd yr awdurdodiadau ar gyfer awdurdodau lleol wedi gostwng yn ystod y flwyddyn casglu data hon. Yn dilyn cynnydd graddol mewn awdurdodiadau yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyfradd ar gyfer 2012-2013 wedi gostwng i'r un lefel â 2009 – 2010 sef y flwyddyn casglu data gyntaf. Mae'r gyfradd ar gyfer Byrddau Iechyd wedi gostwng yn ystod y flwyddyn gyfredol hefyd.

Crynodeb o'r Termau Allweddol

Awdurdod Lleol	Mae 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yng nghyd-destun amddifadu o ryddid, hwn yw'r cyngor lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol mewn unrhyw ardal benodol o'r wlad. Mae uwch reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni swyddogaeth y corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae rheolwyr gwahanol yn gyfrifol am y swyddogaeth awdurdod rheoli, pan fo'r awdurdod lleol hefyd yn darparu cyfleusterau cartref gofal.
Awdurdod rheoli	Yr unigolyn neu'r corff sy'n gyfrifol am reoli'r ysbyty neu'r cartref gofal lle y mae unigolyn wedi ei amddifadu o'i ryddid, neu y gallai gael ei amddifadu o'i ryddid. Maent yn atebol am y gofal uniongyrchol a ddarperir yn y lleoliad hwnnw.
Awdurdodiad brys	Awdurdodiad a roddir gan awdurdod rheoli i'w hun am uchafswm o saith diwrnod, ac y ceir ei ymestyn wedi hynny am uchafswm o saith diwrnod arall gan gorff goruchwyllo. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal tra bo'r broses asesu ar gyfer awdurdodiad safonol yn cael ei chynnal.
Awdurdodiad safonol	Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwyllo, ar ôl cwblhau'r broses asesu statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu unigolyn perthnasol o'i ryddid yn yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol hwnnw.
Bwrdd Iechyd	Mae 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae Byrddau Iechyd yn cyflawni swyddogaeth y corff goruchwyllo a swyddogaeth yr awdurdod rheoli ar gyfer gwasanaethau'r GIG. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'u hawdurdodau lleol partner, fel arfer yn yr un ardal ddaearyddol, i gynllunio strategaethau tymor hir ar gyfer ymdrin â materion iechyd a lles.
Cais gan drydydd parti	Os yw unrhyw un (yn ogystal â'r unigolyn perthnasol ei hun) yn pryderu bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb awdurdodiad, dylent fynegi hyn wrth yr awdurdod rheoli. Ni ddefnyddir y term hwn os yw'r awdurdod rheoli ei hun yn penderfynu bod yr unigolyn perthnasol yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi canllawiau i'w dilyn gan drydydd parti er mwyn mynd i'r afael â materion gyda'r awdurdod rheoli ac, os nad yw'r materion yn cael eu datrys yn gyflym, gyda'r corff goruchwyllo perthnasol.
Colli rhyddid	Mae colli rhyddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ynglŷn ag amgylchiadau pan amddifadir unigolyn o'i ryddid. Mae ei ystyr yn ymarferol yn cael ei ddiffinio trwy gyfraith achosion.
Corff goruchwyllo	Gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd sy'n gyfrifol am ystyried cais gan awdurdod rheoli i amddifadu unigolyn perthnasol o'i ryddid. Maent hefyd yn gyfrifol am gomisiynu'r asesiadau statudol a, phan fo'r holl asesiadau'n dod i'r un casgliad, awdurdodi amddifadu'r unigolyn perthnasol o'i ryddid. Rhaid iddynt hefyd ymateb i bryderon gan drydydd partiön, sy'n credu bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb awdurdodiad.

Cynrychiolydd unigolyn perthnasol	Unigolyn sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol, a benodir i gynnal cyswllt â'r unigolyn perthnasol, ac i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn perthnasol yn yr holl faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid.
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	Y fframwaith o fesurau diogelu dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar gyfer pobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu lles gorau i dderbyn gofal neu driniaeth, ac nad oes ganddynt y galluedd i roi eu caniatâd ar gyfer y trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal neu eu triniaeth.
Unigolyn perthnasol	Unigolyn sydd wedi ei amddifadu o'i ryddid, neu y gallai gael ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal.

Nodiadau

1. Ffynhonnell yr ystadegau

Roedd AGGCC ac AGIC wedi casglu'r wybodaeth yn y brîff hwn ar lefel unigol gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn annog gwelliannau ym meysydd gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol trwy:

- reoleiddio
- arolygu ac adolygu
- darparu cyngor proffesiynol i Weinidogion a'r rhai sy'n llunio polisiau.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

2. Amseriad

Mae'r holl gyfeiriadau at 'flwyddyn' yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth, a dylid cofio bod 2012-13 yn cyfeirio at 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2013.

3. Ansawdd y data

2011-12 oedd y drydedd flwyddyn i'r data yma gael ei gasglu. Mae'r enghreifftiau o ddata ar goll wedi gostwng ac felly mae ansawdd y data wedi gwella. Fodd bynnag, mae yna o hyd nifer fechan o achosion lle mae peth gwybodaeth ar goll. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd i wella ansawdd y data.

4. Symbolau

Defnyddir y nodiant canlynol yn y tablau hyn:

- . = nid yw'r eitem ddata yn berthnasol
- .. = nid yw'r eitem ddata ar gael
- = nid yw'r eitem ddata yn sero yn union, ond amcangyfrifir ei bod yn sero neu'n llai na hanner y digid terfynol a ddangosir
- * = gallai'r eitem ddata olygu bod modd adnabod unigolyn neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

5. Datgelu a thalgrynnu

Mae'r holl dablau lle y ceir perygl datgelu wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf ac mae niferoedd rhwng 1 a 4 wedi eu cuddio. Gwneir hyn er mwyn gochel rhag datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ddamweiniol.

Mewn tablau lle y mae ffigurau wedi eu talgrynnu, fe allai fod anghysondeb ymddangosiadol rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

6. Polisi diwygio

Gan fod y data'n rhan o gasgliad blynyddol gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, ni fydd y data'n cael ei ddiwygio.

7. Defnyddio'r ystadegau

Credwn mai defnyddwyr allweddol gwybodaeth ynglŷn â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (heblaw am ddefnydd AGGCC ac AGIC) yw:

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (aelodau etholedig a swyddogion)
- Darparwyr cofrestredig lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Meysydd eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y Llywodraeth
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Heblaw am ddefnydd craidd AGGCC ac AGIC o'r wybodaeth, defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor i Weinidogion
- Monitro polisiâu a'u gweithrediad
- Meincnodi a chymharu rhwng awdurdodau unedol a Byrddau Iechyd
- Cyfrannu at drafodaethau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'r tu hwnt
- Darparu gwybodaeth i gynllunwyr a chomisiynwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

8. Adborth

Rydym yn annog adborth ynglŷn â'n hystadegau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau, neu os nad ydych yn credu bod y rhestr yn adlewyrchu'r ystod o ddefnyddwyr a defnyddiau yn ddigonol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen flaen y bwletin hwn.

9. Cyhoeddiadau cysylltiedig

Mae'r briff hwn yn cyd-fynd ag Adroddiad Monitro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a baratowyd ar y cyd gan AGGCC ac AGIC ac a gyhoeddwyd ar yr un dyddiad. Mae'r adroddiad hwn ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/?skip=1&lang=cy>

Mae gwybodaeth fanylach ar gael hefyd ar ffurf dogfen Excel, a gellir cael gafael arni trwy glicio ar y ddolen uchod ar gyfer yr Adroddiad Monitro.

10. Gwybodaeth ychwanegol

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar wefannau AGGCC ac AGIC:

www.aggcc.org.uk

www.hiw.org.uk